cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

DATGANIAD I'R WASG
Dyddiad: 2 Mehefin 2010

Tai Ceredigion wedi lansio "TC", masgot cyfeillgar yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Mae Tai Ceredigion, y gymdeithas dai ddi-elw newydd sydd wedi'i sefydlu yn yr ardal, wedi lansio ei masgot newydd sbon yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni yn Llanerchaeron, Ceredigion.

Roedd Tai Ceredigion yn cefnogi'r ŵyl, gan ei bod wedi cael ei chynnal yn lleol, a roedd gan y gymdeithas stondin yn y digwyddiad eleni. Roedd gwahanol weithgareddau ar gael i blant ynghyd â chyfleoedd i ymwelwyr gwrdd â staff a roedd yn darparu gwybodaeth am ynni gwyrdd ac wedi dosbarthu dyfeisiau rhad ac am ddim i'ch helpu i arbed ynni. Roedd y staff hefyd wedi darparu gwybodaeth am sut y gall tenantiaid gymryd rhan yng ngwaith y gymdeithas, roedden wedi cynnal cymorthfeydd ynghylch tai a chynnal a chadw, a roedden wedi rhoi cyngor ynghylch cynhwysiant ariannol.

Meddai Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion, "Roeddwn yn falch iawn o fod yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd eleni gan ei bod yn ein sir ni. Mae'r ŵyl hon yn wych ac mae pawb wrth eu bodd gyda'n mascot tŷ newydd "TC". Rydym yn hynod lwcus, daeth nifer o ymwelwyr i'n stondin i gwrdd â "TC" a darganfod mwy am Tai Ceredigion gan gynnwys Gweinidog dros faterion gweledig Llwyodraeth y Cynulliad Elin Jones AM a Mark Williams, Aelod Seneddol Ceredigion."